

Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 14 Chwefror 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 16 Chwefror 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 23 Chwefror 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 24 Chwefror 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Ifan Davies, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Geraint Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Caryl Roberts.

(10.00am - 1.18pm)

143 Ymddiheuriadau

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

144 Materion Personol

Cydymdeimlwyd â theulu Dr Jeff Jones, cyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cyngor Sir Ceredigion sydd wedi marw'n ddiweddar.

145 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

- i. Datganodd y Cynghorydd Clive Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 150.
- ii. Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 151.

146 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

147 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

148 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

149 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

Dim.

150 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Ffioedd a Chostau gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r Ffioedd a'r Costau i fod mewn grym o 01/04/23 (ac eithrio Prydau Ysgol), fel yr amlinellir yn:
 - a) Atodiad 1
 - b) Atodiad 2
 - c) Atodiad 3 (ac eithrio'r tâl mynediad arfaethedig o dan Ffioedd a Chostau'r Gwasanaeth Amgueddfeydd, a dynnwyd yn ôl)
 - d) Atodiad 4ac eithrio'r eitem ganlynol ymhellach:
 - Bod Ffioedd a Chostau arfaethedig y Meysydd Parcio yn Nhregaron a Llandysul yn cael eu dileu o Atodiad 3, fel na fyddai dim costau am Barcio Ceir yn y trefi hynny am gyfnod pellach o 12 mis yn ystod 2023/24.
2. Cymeradwyo'r newid o ran Ffioedd a Chostau Prydau Ysgol, fel yr amlinellir yn Atodiad 2, i fod mewn grym o 01/09/23.
3. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i gynyddu pris Prydau Ysgol i gyd-fynd ag unrhyw gynnydd a wneir yn dilyn yr adolygiad o gyfradd Llywodraeth Cymru fesul uned, gan gyflwyno unrhyw newid ar ôl i'r cynnig o ran Prydau Ysgol am ddim gael ei ymestyn yn llawn i bob blwyddyn Ysgol Gynradd.
4. Dirprwyo awdurdod yn barhaus i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb am y Canolfannau Hamdden a Llesiant, i amrywio'r Ffioedd a Chostau ar gyfer y Canolfannau Llesiant i redeg cynigion hyrwyddo tymor byr/â chyfyngiad amser.
5. Nodi'r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb a chytuno ar y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynglŷn â Ffioedd a Chostau.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn ystyried y Ffioedd a'r Costau yn rhan o broses y Cyngor ar gyfer pennu'r gyllideb.

151 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb 2023/24 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Argymhell i'r Cyngor Llawn yn dilyn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynghylch parhau i Barcio Ceir am Ddim yn Llandysul a Thregaron, y dylai'r gost bosibl o £40k sy'n gysylltiedig â hyn gael ei hariannu o'r Ddarpariaeth o £400k a neilltuwyd ar gyfer risgiau o ran Chwyddiant Cyflogau ac Ynni ac mai dim ond o dan opsiwn Treth y Cyngor nad yw'n is na 7.3% y mae'r dull hwn o weithredu yn bosibl.
2. Argymhell i'r Cyngor Llawn mai Gofyniad Cyllideb 23/24 yw £180.101m a chynnydd o 7.3% yw lefel Treth y Cyngor a gynigir ar gyfer 23/24 at

ddibenion y Cyngor Sir (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd yn Ardoll yr Awdurdod Tân).

3. Nodi'r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb; a nodi bod pob un o'r Pwyllgorau thematig wedi argymhell cynnydd o 7.3% yn Nhrefn y Cyngor ar gyfer 2023/24 (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â chynnydd Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.101m.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi paratodau Cyllideb 2023/24 i barhau, fel bod modd paratoi papurau Cyllideb a chyfrifiadau Treth y Cyngor ar gyfer cyfarfod llawn y Cyngor ar 02/03/23.

152 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24

PENDERFYNIAD:

- a) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y'i hamlinellir yn yr adroddiadau ar gyfer Benthycyca a Buddsoddi.
- b) Cymeradwyo'r Atodlen Buddsoddi fel y'i nodir yn Atodiad B.
- c) Cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw fel y'i nodir yn Atodiad C.
- d) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Atodlen Buddsoddi yn ystod y flwyddyn. Hefyd, argymhell bod y Cyngor Llawn yn:
- e) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycyca a Buddsoddi 2023/24; a
- f) cymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Gosod Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24.

153 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Rhaglen Arfor: Derbynn y cyllid a'r trefniadau gweithredu yng Ngheredigion

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r trefniadau a gynigir ar gyfer gweithredu a chyflawni'r Gronfa, fel y nodir yn yr adroddiad.
2. Cymeradwyo mewn egwyddor fod y Cyngor yn ymrwymo i Gytundeb Rhyng-Awdurdod gyda Chyngor Sir Gwynedd.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod Cyngor Sir Ceredigion yn gallu mynd yn ei flaen gyda Chyngor Sir Gwynedd i dderbyn Cyllid Arfor a bod y swyddogion yn gallu sefydlu trefniadau gweithredu cyn gynted â phosib.

154 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Adnewyddu Neuadd Farchnad Aberteifi ac Adeiladu Bloc Mynediad newydd

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo cyfraniad ychwanegol o £100,000 i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi ac adolygu'r cytundeb ariannu presennol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi'r prosiect i gael ei gwblhau a chyflawni nodau ac amcanion gwreiddiol y cynigion ailddatblygu.

155 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner 2023/24

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r cyfraddau tâl canlynol a fydd mewn grym oddi ar y 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024:

1) Uwch Grwner rhan-amser:

- i. Cyflog Cadw o £21,120 y flwyddyn i'w gadw a sicrhau bod gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael.
- ii. Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £465 a gytunwyd i dalu cyflog blynyddol o £11,625 i'r Crwner gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant. Cyfanswm: £32,745 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).
- iii. Treuliau swyddfa/lwfans cymorth busnes – £5,000 y flwyddyn o'r 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024.

2) Crwner Cynorthwyol:

Dyma'r cyfraddau dyddiol:

- £397 am ddiwrnod llawn; a
- £199 am hanner diwrnod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyron y JNC; lleihau heriau a diogelu'r pwrs cyhoeddus.

156 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Adroddiad Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion.
2. Bod adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wneir gyda Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion yn cael ei gyflwyno i'r ysgolion a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu.
3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I sicrhau bod gan ysgolion strategaeth briodol - sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth - i gefnogi disgyblion difreintiedig.

- 157 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cyflwyno terfynau cyflymder diofyn o 20mya**
PENDERFYNIAD:
 Cymeradwyo atebion y Swyddogion i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'i fod yn cymeradwyo hysbysebu'r cynigion i'r cyhoedd, ac yn awdurdodi, os na ddaw gwrthwynebiadau i law, y gwneir y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol ac y cyhoeddir Hysbysiad o Wneud yn y wasg i'r perwyl hwn.
- Y rheswm dros y penderfyniad:*
 Mae'r newidiadau arfaethedig yn y trefniadau o ran terfynau cyflymder yn seiliedig ar y rhesymau cyffredinol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn sef sicrhau diogelwch ar y ffyrdd, lleihau difrifoldeb anafiadau ac annog Teithio Llesol a Theithio Cynaliadwy.
- 158 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Rhwydwaith Bysiau Ceredigion**
 Nodwyd yr adroddiad.
- 159 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
 Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- 160 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Adroddiad Blynyddol Grwp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2021- 2022 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
 Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- 161 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Adroddiad Blynyddol Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Ceredigion 2021-22 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
 Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- 162 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 1 2022/23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
 Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

163 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2022/23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

164 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar
7 Mawrth 2023**

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____